## Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Delyth Roberts (Cefn Meiriadog) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei thad, John Glyn Williams o Ruthun, a hefyd Gwyneth Evans (Cefn Meiriadog) a'r teulu ym marwolaeth ei brawd, John Jones o Rydymwyn. Cyflwynwn y ddau deulu yn dyner i ofal yr Arglwydd a gweddïwn y bydd pawb sydd wedi colli anwyliaid yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth iddynt yn eu galar a'u hiraeth.

Anfonwn ein cofion at Margaret J. Davies (Llansannan) fu'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd dros y dyddiau diwethaf ond sydd ar fin symud i gael gofal pellach yn Ysbyty Rhuthun. Fe'i cofiwn yn ein gweddïau a hyderwn y bydd yn teimlo'n well yn fuan. Yn ein gweddïau hefyd mae Gwynfor Pritchard (Llansannan) sydd bellach adref o'r ysbyty ond a dreuliodd gyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod y pythefnos diwethaf. Dymunwn adferiad iechyd buan iddo yntau ac i bawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd yn ddiweddar. Mae'n dda iawn cael adrodd fod Eurgain Pierce (Llannefydd) wedi cael dod adref o'r ysbyty yn dilyn cyfnod go hir mewn gwahanol ysbytai. Diolchwn am bob gofal a gafodd ac am ofal arbennig y teulu drosti. Parhawn i gofio am Eurgain a'r teulu yn ein gweddïau. Da yw cael adrodd fod Dilys Roberts (Henllan) hefyd wedi cael dod adref o'r ysbyty, ac mae Morfudd Jones (Llannefydd) bellach yn derbyn gofal yng Nghartref Southern House yn Abergele. Cyflwynwn bob un o'r cleifion i ofal Duw, gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Sara Roberts (Llansannan) a Sam ar enedigaeth Iori Tudur, ac i Iwan Jones (Llansannan) a Glian ar enedigaeth Nedw Eilir, brawd bach i Cai a Math. Diolchwn i Dduw am y rhoddion arbennig yma, a chyflwynwn y teuluoedd i'w ofal.

## Rhaghysbys

- **Noson Rownderi a Barbeciw** wedi ei threfnu gan aelodau Capel Llannefydd ar y Cae Chwarae nos Wener, Mehefin 21ain am 6:30 yr hwyr. Bydd yr elw at y Samariaid.
- **Chwiorydd Bro Dinbych** yn cyfarfod yng Nghapel y Pentre, Llanrhaeadr nos Iau, Mehefin 27ain am 7:00 yr hwyr. Croeso i bawb yno i fwynhau noson o ganu yng nghwmni'r Therapydd Cerdd, Ceri Rawson. Bydd yn gyfle i glywed mwy am ei gwaith diddorol a gwerthfawr yn y cartrefi preswyl a'r gymuned, a bydd cyfle i gymdeithasu dros baned.

## Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

***Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (12fed), os gwelwch yn dda.***

# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 2 Mehefin 2024

eglwysibroaled.com rhaglendorcas.com llanw.org

### Mor bell

Mae'r ymwelwyr yn heidio i Gymru eleni eto. Wêl neb fai arnyn nhw wrth reswm o gofio prydferthwch ein gwlad a chyfoeth ei diwylliant a'i hanes. A'r wythnos ddiwethaf, cyhoeddodd Croeso Cymru adroddiad sy'n nodi nid yn unig y rhesymau a roddwyd gan bobl dros ddod yma ond hefyd dri rheswm ar ddeg a roddwyd gan eraill dros beidio â dod. Wnaf fi ddim eich diflasu â'r rhestr gyflawn; ond mi wnes i wenu o weld mai un rheswm a nodwyd dros beidio â dod i Gymru oedd 'ei bod yn rhy bell'.

Rhy bell o ble? O Lerpwl? O Gaeredin? O Baris? Does wybod, gan nad yw'r adroddiad yn dweud. Glywsoch chi'r stori am wraig o ben draw Llŷn a ddywedodd, wedi dychwelyd o wyliau yn Llundain, mai unig ddrwg y ddinas honno oedd 'ei bod yn bell o bob man'? Gwir neu beidio, mae'n stori dda. Ac fel yr arolwg, mae'n dangos bod y syniad o bellter yn ddibynnol ar ble rydym yn cychwyn. Wedi'r cwbl, mae pobman yn bell o rywle.

Gall Duw fod yn bell iawn. Wrth gwrs hynny, o gychwyn o ryw fan. Mae Duw'n sicr yn bell os ydym yn cychwyn efo'n dealltwriaeth a'n gwybodaeth ein hunain. Beth, neu pwy yw Duw? Sut un ydyw? Oes yna hyd yn oed y fath beth â Duw? Sut allwn ni, feidrolion gwan, ddechrau ei ddisgrifio na'i egluro? Ond o gychwyn o fan arall, mae Duw'n agos iawn. Rhan o'r gyfrinach yw cychwyn gyda'r hyn a ddywed Duw amdano'i hun yn y Beibl; yr hyn a ddangosodd i ni trwy Iesu Grist. O gychwyn yn y man cywir mae Duw'n agos, a'i gariad a'i drugaredd a'i ddaioni a'i ras yn amlwg.

Ac yn rhyfedd iawn, rhan o'r gyfrinach hefyd yw ein bod yn cychwyn trwy gydnabod y pellter sydd rhyngom a Duw. Y mae Ef yn bell am ein bod ni mor bell o'r hyn a ddylem fod. Mae Duw'n bell am ein bod ni wedi cefnu arno ac wedi crwydro oddi wrtho. Mae yna fwlch mawr rhyngom a Duw, ac mae unrhyw gymdeithas ag Ef wedi ei chwalu. Mor bwysig yw cychwyn yn y man iawn trwy gydnabod hynny. Oherwydd cyhyd ag y mynnwn ni fod popeth yn iawn, a'n bod – fwy neu lai fel yr ydym – yn ddigon da i'r Brenin Mawr, bydd y pellter yn parhau. Ond o'i gydnabod, mae gobaith y gwelwn fod Duw trwy Iesu Grist wedi cau'r bwlch ac wedi dod yn agos, agos atom.

*Y Parch. John Pritchard*

# Cyhoeddiadau'r Fro

## Dydd Sul, Mehefin 2il

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr John Roberts. Ar ddechrau'r oedfa yn Llansannan, bydd pleidlais yn cael ei chynnal er mwyn enwebu blaenoriaid. *(Gweler y dudalen gyferbyn.)* Bydd Ysgol Sul i'r oedolion yng Nghefn Meiriadog yn dilyn yr oedfa a bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. David Owens. Ar ddechrau'r oedfa yn Groes, bydd pleidlais yn cael ei chynnal er mwyn enwebu blaenoriaid. *(Gweler y dudalen gyferbyn.)* Bydd Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:00 ac Ysgol Sul yr oedolion yn Groes am 10:15.
- **Gwasanaeth Bedydd yn Llannefydd** am 2:00 y pnawn o dan arweiniad y Parch. Aneurin Owen pryd y bydd Elgan a Siwan yn cyflwyno Cadi Mair i'w bedyddio. Yn ystod y gwasanaeth bydd aelodau newydd hefyd yn cael eu croesawu.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn (a phob pnawn Sul arall).

## Dydd Llun, Mehefin 3ydd

- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** 'Grym Gweddi' o dan arweiniad gweithwyr Dorcas am 7:00 yr hwyr. Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC. Cysylltwch â'r swyddfa i gael y ddolen i gysylltu (01678 520565 / eirian.roberts@ebcpcw.cymru).

## Dydd Mawrth, Mehefin 4ydd

- **Paned a Sgwrs** yn Festri Llansannan am 1:30 y pnawn. Croeso cynnes i bawb.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Llannefydd am 7:30 yr hwyr.

## Dydd Mercher, Mehefin 5ed

- **Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** – Noson yng Nghapel y Rhiw, Pwllglas am 7:00 yr hwyr yng nghwmni Eirian Roberts, Trefnydd Gwaith y Chwiorydd, Coleg y Bala. Croeso cynnes i bawb.

## Dydd Gwener, Mehefin 7fed

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llannefydd** am 10:00. Croeso cynnes i bawb.

## Dydd Sul, Mehefin 9fed

- **Oedfa i'r Daith (Llansannan, Cefn Meiriadog a Llanfair) yn Llanfair** am 10:30 o dan arweiniad Rhys Dafis.
- **Oedfa Gymun yn Llannefydd** am 9:30 ac **Oedfa yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Gareth Edwards.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 y pnawn o dan arweiniad y Parch. John Robinson. Ar ddechrau'r oedfa yn Nantglyn, bydd pleidlais yn cael ei chynnal er mwyn enwebu blaenoriaid. *(Gweler isod.)*
- **Cymanfa Ganu Annibynwyr Gorllewin Dinbych a Fflint** yng Nghapel Bethel, Yr Wyddgrug am 2:30 y prynhawn. Arweinydd: Arwyn Roberts. Croeso i bawb.

## Dydd Mawrth, Mehefin 11eg

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.

## Dydd Sul, Mehefin 16eg

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. R. O. Roberts. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan a chynhelir Ysgol Sul yr oedolion yng Nghefn Meiriadog am 10:15. Hefyd, yn dilyn yr oedfa yn Llansannan, bydd cyfarfod byr i newid swyddogion y Gymdeithas. Dewch â syniadau newydd ar gyfer rhaglen y tymor nesaf, os gwelwch yn dda.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn yr oedfa yn Groes ac Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:30.

## Ethol blaenoriaid

Yn dilyn y bleidlais a gynhaliwyd yn Groes, Nantglyn a Llansannan rai wythnosau yn ôl, cafwyd bod y tair eglwys o blaid ethol mwy o flaenoriaid. Fe wnaeth yr Henaduriaeth yn eu cyfarfod ar Fai 22ain gydsynio â'r cais, ac felly bydd dau aelod o blith yr Henaduriaeth yn dod i gynnal pleidlais yn Groes a Llansannan am 11:00 ar Fehefin 2il, ac i Nantglyn ar Fehefin 9fed am 2:00 y pnawn.

Y tro hwn, a thrwy bleidlais hollol ddirgel, bydd angen i aelodau'r eglwysi enwebu blaenoriaid newydd. Y mae holl aelodau cyflawn yr eglwys – gan gynnwys y rhai a fu'n flaenoriaid mewn eglwysi eraill – ar dir i'w henwi. Peidiwch â chyfyngu'r nifer i un neu ddau enw os credwch fod eraill hefyd yn addas i'r gwaith. Mae rhyddid i chi enwebu y nifer a fynnwch. Yn wir, fe fyddai gwneud hynny o fantais oherwydd, cyn y bydd unigolyn wedi ei ddewis i fod yn flaenor, bydd yn rhaid i o leiaf 51% o'r aelodau fydd yn pleidleisio fod wedi enwebu'r unigolyn hwnnw. Cedwir manylion y bleidlais yn gyfrinachol.

Aelodau cyflawn o'r eglwys benodol sydd â'r hawl i bleidleisio ac ni dderbynnir pleidlais aelod absennol.

Ni fydd yr eglwys yn cael ei hysbysu o'r canlyniad ar ddiwrnod y bleidlais. Bydd Ysgrifennydd yr Ofalaeth yn cael sgwrs hefo'r darpar flaenor/iaid mor fuan ag y bydd hynny'n bosibl, ac os byddant yn cydsynio â'r alwad, caiff y gynulleidfa eu hysbysu yn yr oedfa ddilynol. Bydd yr ordeinio yn digwydd yng nghyfarfod nesaf yr Henaduriaeth ar Orffennaf 13eg.